

Aseiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Sir Ddinbych

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn cyhoeddi: Awst 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2528A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Argymhelliad 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig – mae ganddo hanes da o reoli ei gyllideb ac mae'n parhau i weithio i wella'i sefyllfa ariannol ymhellach 6

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru 6

Mae trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor yn aeddfed ac yn datblygu ymhellach i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig 7

Mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi aros yn weddol sefydlog ers 2016-17 a rhagwelir y byddant yn cynyddu 9

Mae rhai amrywiadau sylweddol o ran y gyllideb o hyd y mae'r Cyngor yn gweithio i'w datrys 11

Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion cyllidebol ond nid yw hynny wastad yn digwydd fel a gynlluniwyd 12

Mae'r Cyngor wedi cynnal cymhareb hylifedd o lai nag 1 dros y cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20 15

Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

- 1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.
- 2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddodd ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**¹. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.
- 3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwyliid wrth edrych tua'r dyfodol.
- 4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.
- 5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn rhwng mis Ionawr 2021 a mis Ebrill 2021.

¹ Archwilio Cymru, [Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19](#), Hydref 2020.

Argymhelliad

Arddangosyn 1: argymhelliad

Mae'r tabl isod yn nodi'r maes ar gyfer gwella yr ydym wedi'i adnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

Argymhelliad

Rheoli gwariant

- A1 Sicrhau bod cyllidebau a gweithgarwch gweithredol yn cael eu halinio'n well i gynnal cynaliadwyedd ariannol parhaus.

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig – mae ganddo hanes da o reoli ei gyllideb ac mae'n parhau i weithio i wella'i sefyllfa ariannol ymhellach

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

- 6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.
- 7 Canfuom fod y Cyngor wedi bod yn hawlio o'r Gronfa Galedi COVID i dalu am effaith ariannol y pandemig.

Arddangosyn 2: cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol y Cyngor a'r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19 yn ôl yr amcangyfrifon, a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Y swm ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi ei wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21.	£9.4 miliwn
Swm yr incwm y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi'i gollu o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21.	£12.2 miliwn
Swm y cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19.	£20.9 miliwn

Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.	£0.7 miliwn
--	-------------

Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu am 'arbedion nas cyflawnwyd' a 'thrawsnewid digidol'.	£1.6 miliwn
---	-------------

Ffynhonnell – Data'r Cyngor i ategu'r adolygiad o gynaliadwyedd ariannol

Mae trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor yn aeddfed ac yn datblygu ymhellach i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig

Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

- 8 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a'r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.
- 9 Mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus ac, yn y cyd-destun hwn, bydd lliniaru'r effaith ar gynghorau'n dibynnu nid dim ond ar y camau gweithredu y maent yn gallu eu cymryd ond hefyd, i raddau helaeth, ar swm yr adnoddau a ddyrennir gan lywodraethau. Rydym yn cydnabod mai mater allweddol i gynghorau o hyd wrth geisio cynllunio'n ariannol dros y tymor canolig yw'r ansicrwydd ynghylch lefel y cyllid y byddant yn ei gael gan y llywodraeth, a'u ffrydiau incwm hwy eu hunain, megis y dreth gyngor a ffioedd a thaliadau.

Canfuom fel a ganlyn:


- canfu ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20 nad oedd Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) y Cyngor yn nodi sut y byddai'n unioni'r diffyg cronus o £14.4 miliwn a oedd yn cael ei ragamcanu bryd hynny rhwng 2020-21 a 2022-23
- yn yr adolygiad hwn canfuom fod y Cyngor wedi estyn ei drefniadau cynllunio ariannol i gwmpasu'r cyfnod rhwng 2021-22 a 2023-24 pan gymeradwyodd gyllideb referniw 2021-22 ym mis Ionawr 2021. Ar yr adeg honno roedd yn rhagweld bwlch o ran cyllid o £2.6 miliwn dros y cyfnod.
- yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi diweddarau ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig ymhellach ac wedi adrodd ar hyn wrth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ebrill 2021. Mae'r CATC wedi'i fireinio'n nodi tybiaethau diwygiedig gan gynnwys ar gyfer 2024-25. Roedd hwn yn amlygu bwlch o

ran cyllid o £5.3 miliwn dros y blynyddoedd rhwng 2021-22 a 2024-25. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos y dadansoddiad o'r bwlch dros oes y CATC.

- mae'r CATC yn tybio na fydd unrhyw gynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw nac mewn Ardrethi Busnes yn ystod 2022-23 a 2023-24. Mae'n nodi codiadau arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 2.95% a 3.8% yn y drefn honno ar gyfer 2022-23 a 2023-24 a dim defnydd o gronfeydd wrth gefn. Roedd y CATC yn cynnwys codiadau ar gyfer cyflogau, chwyddiant, taliadau'r Gwasanaeth Tân, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac addasiadau demograffeg ysgolion. Roedd darpariaeth i dalu am alw ychwanegol am wasanaethau o £0.5 miliwn yn y gwasanaethau plant a £0.5 miliwn i roi cymorth i gyflawni blaenoriaethau yn 2022-23 a 2023-24.
- roedd y Cyngor wedi defnyddio dull darbodus o ran cynllunio ariannol a oedd yn rhagweld dyfodol, yn ymdrin â chostau pandemig COVID-19. Neilltuwyd eitem ddigwyddiadol o £683,000 yng nghyllideb refeniw 2021-22 i dalu am effaith ariannol COVID-19 a Brexit.
- mae'r Cyngor wedi parhau i fynd ati mewn modd strategol i gynllunio ei ddyfodol ariannol ar gyfer pennu cyllideb 2022-23 sy'n cynnwys ymgysylltu trwy gydol blwyddyn ariannol 2021-22 â Bwrdd y Gyllideb, y Cabinet, y Grŵp Targedau Arbedion, Undebau Llafur ac yn y pen draw, y Cyngor llawn.

Arddangosyn 3: mae gan y Cyngor gyfanswm bwlch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y pedair blynedd rhwng 2021-22 a 2024-25 o £7.3 miliwn

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y tair blynedd ganlynol.



Mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi aros yn weddol sefydlog ers 2016-17 a rhagwelir y byddant yn cynyddu

Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

10 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau'r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

Canfuom fel a ganlyn:

- canfu ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20 fod y Cyngor yn defnyddio'i gronfeydd wrth gefn yn strategol, yn cadw balansau iach, a bod rhai cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi sy'n bwysig bron yn cael eu defnyddio'n llawn fel a gynlluniwyd.
- Mae **Arddangosyn 4** isod yn dangos bod y Cyngor wedi cynnal balans cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd rhwng £36 miliwn a £38 miliwn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau wedi lleihau o 18.4 y cant yn 2015-16 i 15.5 y cant yn 2019-20. Fodd bynnag, mae **Arddangosyn 5** yn dangos bod cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau yn yr hanner isaf o'i gymharu â'r holl gynghorau eraill yng Nghymru.
- er bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o £36.4 miliwn ar 31 Mawrth 2020, yn ymarferol dim ond at ddibenion penodol y dylid defnyddio rhai o'r rhain. O fewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi'r Cyngor roedd balansau ysgolion o £1.4 miliwn, cronfa wrth gefn gyfalaf o £9.8 miliwn, cronfa wrth gefn yswiriant o £1.8 miliwn a chronfa wrth gefn benthyciadau wedi'u haddasu o £4.6 miliwn.


Arddangosyn 4: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau ²	196.5	190.6	190.7	200.9	207.4
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau ³	40.6	36.8	37.0	38.0	36.4
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel % o gost net gwasanaethau ⁴	20.6%	19.3%	19.4%	18.9%	17.6%
Safle o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru	10fed/22	10fed/22	11eg/22	10fed/22	12fed/22

Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

Arddangosyn 5: swm y cronfeydd wrth gefn yn erbyn y gyllideb flynyddol o'i gymharu â chynghorau eraill



Ffynhonnell – Datganiad Cyfrifon

² Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon.

³ Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon.

⁴ Cyfrifiad Archwilio Cymru.

Mae rhai amrywiadau sylweddol o ran y gyllideb o hyd y mae'r Cyngor yn gweithio i'w datrys

Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

- 11 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Yr hyn a ganfuom

- 12 Yn ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20 canfuom, er bod y Cyngor wedi tanwario'i gyllideb refeniw ar y cyfan yn 2017-18 a 2018-19, fod gorwariannau sylweddol gan wasanaethau wedi cael eu gwrthbwysu gan danwariannau mewn meysydd eraill. Y rhagolygon oedd y byddai gorwariant mewn perthynas â'r gyllideb refeniw yn 2019-20.
- 13 Canfuom yn yr adolygiad hwn fod gan y Cyngor hanes o gadw gwariant o fewn 1% o'i gyllidebau refeniw ar y cyfan. Mae **Arddangosyn 6** yn darparu manylion pellach. Yn 2019-20, fe orwariodd y Cyngor ei gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol ar y cyfan o £0.19 miliwn. O fewn hyn, ac fel gyda blynyddoedd blaenorol, nododd rhai gwasanaethau orwariannau a thanwariannau amrywiol. Gorwariodd Addysg a Gwasanaethau Plant o £1 filiwn, gorwariodd Ysgolion o £1.3 miliwn, gorwariodd Gwasanaethau Cymorth Cymunedol o £0.7 miliwn a gorwariodd Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd o £0.5 miliwn. Cafodd y gorwariannau hyn eu gwrthbwysu gan danwariannau mewn rhai gwasanaethau megis yn y cyllidebau Corfforaethol o £2.7 miliwn, y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd o £0.2 miliwn, Cwsmeriaid a Chyfathrebu o £0.1 miliwn a Gwella a Moderneiddio Busnes o £0.1 miliwn.
- 14 Fe wnaeth y Cyngor egluro'r rhesymau dros amrywiadau yn y gyllideb yn ei adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2019-20. Cyn y pandemig, arferai'r Cyngor gynnal sesiynau herio gwasanaethau i adolygu perfformiad. Ar ôl atal y rhain oherwydd y pandemig yn 2020-21, yn 2021-22 mae'r Cyngor yn bwriadu aildechrau'r sesiynau hyn gyda'r holl wasanaethau ac mae'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo'n bwriadu darparu cyfres o sesiynau herio'r gyllideb. Mae herio fel hyn yn ystod y flwyddyn a'r trefniadau ar gyfer cynllunio'r gyllideb y cyfeirir arnynt uchod yn cynnig y potensial i leihau nifer yr amrywiadau parhaus i'r gyllideb.
- 15 Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi cael budd o amryw fathau o incwm ychwanegol neu addasiadau cyfrifyddu sydd wedi gwrthbwysu gorwariannau gan wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys addasiadau cyfrifyddu technegol a thaliadau Caledi COVID i dalu am 'arbedion nas cyflawnwyd' a 'Thrawsnewid Digidol' (a oedd heb fod yn gysylltiedig â gwariant neu golledion incwm gwirioneddol).

Arddangosyn 6: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb referniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant yng nghyllideb referniw net y Cyngor ar y cyfan am y pedair blynedd ddiwethaf a hefyd y flwyddyn hyd yma o ran y sefyllfa ym mis Mawrth 2021.

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau ⁵	185.1	189.3	194.4	198.5	208.3
Alldro Refeniw Net Gwirioneddol £ miliynau ⁶	185.1	188.1	192.9	198.8	205.6
Swm y gwarged/(gorwariant) ar y cyfan £ miliynau ⁷	0.0	1.2	1.5	(0.3)	2.7
Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb referniw net	0.0%	0.6%	0.8%	-0.2%	1.3%

Ffynhonnell – Data a ddarparwyd gan y Cyngor fel rhan o'r adolygiad hwn

Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion cyllidebol ond nid yw hynny wastad yn digwydd fel a gynlluniwyd

Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

- 16 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny'n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai

⁵ Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon.

⁶ Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon.

⁷ Cyfrifiad Archwilio Cymru.

na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolog.

Yr hyn a ganfuom

- 17 Canfu ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20 fod gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio er ei fod yn cael hyn yn fwy o her wrth i'r cydbwysedd symud o fesurau effeithlonrwydd i newid gwasanaethau mewn modd sy'n cael mwy o effaith.
- 18 Yn 2019-20 fe gytunodd y cyngor ar arbedion o fewn y gyllideb ac arbedion effeithlonrwydd o £5.6 miliwn. O hyn roedd £0.5 miliwn yn arbedion corfforaethol a nodwyd yn 2018-19, cyflawnwyd £1.3 miliwn gan ysgolion trwy leihau eu cyllid o 2% ac fe gyflawnwyd £3.9 miliwn trwy fesurau effeithlonrwydd ac arbedion gan wasanaethau. Cyflawnodd y Cyngor 89% o'r mesurau effeithlonrwydd ac arbedion gan wasanaethau gyda £0.6 miliwn yn cael ei ariannu trwy'r Eitem Ddigwyddiadol Cyflawni Arbedion. Gellid dadlau, gan bod ysgolion wedi gorwario eu cyllidebau yn 2019-20 o £1.3 miliwn, na chyflawnwyd yr arbediad hwn.
- 19 Yn 2020-21 fe gymeradwyodd y Cyngor arbedion a mesurau effeithlonrwydd gan wasanaethau o £4.4 miliwn. O hyn roedd £2 filiwn yn ymwneud â'r adolygiad actiwaraidd teirblynyddol o Gronfa Bensiwn Clwyd, roedd £0.7 miliwn wedi'i ddirprwyo i gyrff llywodraethu ysgolion ac roedd £1.7 miliwn yn dod o arbedion gan wasanaethau a oedd eisoes wedi cael eu rhoi ar waith.

Arddangosyn 7: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2019-20 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o'i gynlluniau arbedion rhwng 2018-19 a 2019-20 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd yn ogystal ag amcangyfrifon ar gyfer 2020-21.

	2018-19	2019-20	Amcangyfrif 2020-21
Cyfanswm arbedion wedi'u cynllunio mewn £ miliynau ⁸	£4.6	£5.6	£4.4

⁸ Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon.

Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd mewn £ miliynau ⁹	£4.6	£5.0	£4.4
Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd mewn £ miliynau	£0.0	£0.6	£0.0
Canran yr arbedion a gyflawnwyd	100%	89%	100%

Ffynhonnell - Data a ddarparwyd gan y Cyngor fel rhan o'r adolygiad hwn

⁹ Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall.
Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon.

Mae'r Cyngor wedi cynnal cymhareb hylifedd o lai nag 1 dros y cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20

Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

- 20 Pam ei bod yn bwysig pwysu a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):
- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
 - er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
 - dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
 - gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.
 - dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- 21 Canfuom fel a ganlyn:
- mae gan y Cyngor gymhareb hylifedd o lai nag un ers 2016-17 sy'n dynodi bod ei asedau cyfredol yn gyfwerth â'i rwymedigaethau cyfredol ac mae'r Cyngor wedi gallu cwrdd â'i holl rwymedigaethau byrdymor.

Arddangosyn 8: cymhareb cyfalaf gweithio 2015-16 i 2019-20

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Asedau Cyfredol ¹⁰	33.8m	26.5m	40.7m	42.1m	61.4m
Rhwymedigaethau Cyfredol ¹¹	34.9m	38.1m	63.9m	64.2m	77.2m
Cymhareb Cyfalaf Gweithio	1.0	0.7	0.6	0.7	0.8
Cymhareb Cyfalaf Gweithio gyfartalog ar draws holl gynghorau Cymru	1.4	1.2	1.0	1.1	1.1

¹⁰ Mae Asedau Cyfredol yn cynnwys: Buddsoddiadau Byrdymor; Asedau a ddeler i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Byrdymor; ac Arian Parod a'i gyfwerth

¹¹ Mae Rhwymedigaethau Cyfredol yn cynnwys: Benthyciadau Byrdymor; Credydwyr Byrdymor; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn.

Ffynhonnell – Datganiad Cyfrifon



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.